



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Cylch Meithrin Gwenog
Ysgol Gynradd Llanwenog
Llanwenog
Ceredigion
SA40 9UU**

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2015

gan

**Dorothy Morris
Arolygydd Cofnodol**

ar ran

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2016: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/01/2016

Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Gwenog yn cyfarfod mewn ystafell yn Ysgol Gynradd Llanwenog, ym mhentref Llanwenog, sir Ceredigion. Mae'n cynnig pum sesiwn yr wythnos i blant tair oed yn y bore a phum sesiwn prynhawn i blant dwy oed.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 16 o blant fesul sesiwn. Ar hyn o bryd, mae 13 o blant tair a phedair oed ar y gofrestr ac yn cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol. Saesneg yw iaith y cartref i tua hanner y plant. Yn ôl y lleoliad, nid oes plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol o fewn y garfan bresennol.

Mae tri aelod o staff yn cynnwys arweinydd amser llawn a dwy ymarferwraig ar gytundebau rhan amser. Mae'r holl staff yn brofiadol ac mae'r rhan fwyaf yn meddu ar gymwysterau addas ym maes addysg a gofal plant bach. Mae'r arweinydd wedi bod yn ei swydd ers Ebrill 2012.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn Rhagfyr 2014 a chan Estyn ym Mehefin 2011.

Crynodeb

Perfformiad presennol y lleoliad	Da
Rhagolygon gwella'r lleoliad	Da

Perfformiad presennol

Mae'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd priodol o'u man cychwyn
- Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu ystod addas o fedrau llythrennedd
- Mae gan y plant ymagweddau cadarnhaol tuag at ddysgu
- Mae safon ymddygiad y plant yn dda iawn
- Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod o brofiadau diddorol i'r plant
- Mae defnydd pwrpasol o ystod o ddulliau addysgu
- Mae'r anogaeth gyson i'r plant ddefnyddio eu medrau Cymraeg yn eu dysgu yn nodwedd gadarn
- Mae'r berthynas dda iawn sydd rhwng y plant a'r ymarferwyr yn hybu eu hyder fel dysgwyr
- Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer datblygu medrau creadigol y plant
- Mae'r amgylchedd dysgu yn lliwgar, deniadol a chynnes

Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- Mae'r arweinydd yn darparu cyfeiriad cadarn i waith y lleoliad
- Mae'r ymarferwyr yn cyflawni eu rolau'n gydwybodol ac yn gweithio'n effeithiol fel tîm
- Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn adnabod meysydd priodol i'w datblygu
- Mae tystiolaeth o welliannau yn cael eu cyflwyno'n llwyddiannus
- Mae'r ymarferwyr yn agored i syniadau newydd ac maent yn barod i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio
- Mae adnoddau yn cael eu defnyddio'n gynhyrchol i gefnogi'r dysgu
- Mae cadeirydd a swyddogion y pwyllgor rheoli yn darparu cefnogaeth adeiladol
- Mae'r cysylltiadau gyda'r ysgol gynradd, y rhieni a'r gymuned yn cynorthwyo dysgu a lles y plant yn effeithiol

Argymhellion

- A1 Cryfhau'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y plant
- A2 Ehangu'r defnydd o ganlyniadau asesu cynnydd plant i gynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu yn arbennig eu medrau llafar a'u medrau rhif
- A3 Strwythuro gweithdrefnau arfarnu'r ddarpariaeth ymhellach
- A4 Gweithredu amserlen gwerthusiadau staff yn llawn

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mae medrau gwrando'r plant yn dda. Mae lleiafrif ohonynt yn sgwrsio'n hyderus ac yn dangos gafael sicr ar ystod o eirfa estynedig. Maent yn barod i holi cwestiynau, rhannu profiadau a chynnig syniadau'u hunain. Mae'r dysgwyr Cymraeg yn deall cyfarchion, cyfarwyddiadau a chwestiynau yn y Gymraeg ond ymatebion byr iawn a geir ar lafar. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn deall stori sydd yn cael ei darllen iddynt ac mae'r mwyafrif yn medru cyfeirio'n gywir at brif gymeriadau a digwyddiadau'r stori. Mae bron pob un yn gwybod ystod o rigymau a chaneuon ac yn eu canu'n gywir ar y cyfan. Maent yn adnabod eu henwau ar ffurf print ac mae gan y rhan fwyaf ymwybyddiaeth gynyddol o synau nifer o lythrennau'r wyddor. Mae'r mwyafrif yn defnyddio offer marcio yn bwrpasol i gofrestru, tynnu lluniau, a chopio llythrennau a geiriau. Mae ychydig yn ysgrifennu eu henwau yn annibynnol.

Mae'r mwyafrif o'r plant yn gwneud defnydd priodol o'u medrau rhif mewn gweithgareddau bob dydd. Mae'r rhan fwyaf yn cyfrif i ddeg gyda lleiafrif yn cyfrif tu hwnt i hynny yn gywir. Mae'r mwyafrif yn deall gwerth rhifau i fyny i bedwar. Mae rhai unigolion yn defnyddio eu medrau mathemateg pen yn hyderus i gwblhau tasgau adio a thynnu. Fodd bynnag, mae gafael ychydig o blant ar waith rhif sylfaenol yn ansicr. Mae'r mwyafrif o'r plant yn deall iaith fathemategol, megis mawr a bach, llawn a gwag, mewn sefyllfaoedd ymarferol. Maent yn adnabod siapiau sylfaenol ac yn dechrau deall pwrpas arian drwy weithgareddau chwarae rôl. Mae'r mwyafrif yn gwneud defnydd pwrpasol o'u medrau meddwl a'u medrau rhif mewn gweithgareddau megis casglu dail, eu dosbarthu yn ôl lliw ac yna eu cyfrif. Maent yn cyfrannu'n effeithiol at greu graff syml o'r canlyniadau.

Mae medrau TGCh sylfaenol y mwyafrif o'r plant yn datblygu'n briodol, er yn anwastad. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio ystod o gyfryngau yn effeithiol i ddarlunio, peintio, argraffu a modelu. Mae eu medrau trin offer bach, megis pensiliau, sisyrnau a brwsys paent, yn datblygu'n briodol.

Lles: Da

Mae gan y plant ymagweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Gweithiant yn ddiwyd ar dasg gan fwynhau'r ystod o weithgareddau sydd ar gael. Maent yn cyd-chwarae'n gytun ac yn barod i rannu a chymryd eu tro. Maent yn ymddwyn yn dda iawn. Mae'r mwyafrif yn hapus i wneud dewisiadau ac i ymgymryd â gweithgareddau newydd.

Mae pob un o'r plant wedi ymgartrefu'n dda yn y lleoliad. Maent yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yng nghwmni'r oedolion ac yn barod i ofyn am gymorth a chefnogaeth. Mae lefelau presenoldeb a phrydlondeb yn gyffredinol dda.

Mae gan y plant ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd ymarfer y corff a bwyta'n iach. Deallant bwysigrwydd golchi dwylo yn aml ac yn arbennig cyn bwyta byr brydau.

Mae medrau ac ymwybyddiaeth gymdeithasol y plant yn datblygu'n effeithiol drwy'r gweithgareddau dyddiol a thrwy brofiadau megis cymryd rhan yn y gwasanaeth Nadolig a drefnir ar gyfer rhieni a'r gymuned ehangach.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
------------------------------------------------------------	-----------

Profiadau dysgu: Da

Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod o brofiadau diddorol ar draws y meysydd dysgu. Mae'r cwricwlwm wedi'i gynllunio o fewn cylch o themâu sy'n gweddu i ystod oed a lefel datblygiad y plant. Mae defnydd priodol o fframweithiau, sydd wedi'u cysylltu â gofynion y Cyfnod Sylfaen, ar gyfer cynllunio'r ddarpariaeth. Mae cyfleoedd addas i'r plant gyfrannu eu syniadau ar gyfer gweithgareddau.

Mae'r ddarpariaeth ddyddiol yn darparu cyfleoedd cynhyrchiol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant ar draws y cwricwlwm. Mae anogaeth gyson i'r plant ddefnyddio'u medrau cyfathrebu Cymraeg yn eu dysgu a'u chwarae. Yn ystod gweithgareddau grŵp, er enghraifft, mae cyfleoedd pwrpasol i'r plant wrando ar storïau, ymuno mewn caneuon a rhigymau, a defnyddio eu medrau marcio. Mae enghreifftiau o brofiadau buddiol dan arweiniad ymarferwyr i ddarparu ar gyfer anghenion dysgu grwpiau penodol o blant. Er enghraifft, mae'r cyfle i'r plant hynaf sy'n rhugl yn y Gymraeg i osod stori mewn trefn, trafod y cymeriadau, creu eu darluniau eu hunain, a chynnig penawdau i'w cynnwys ar eu gwaith yn atgyfnerthu eu medrau yn effeithiol.

Mae cyfleoedd priodol i'r plant gyfrif a thrafod rhifau yn ystod gweithgareddau grŵp, amser cylch ac yn eu chwarae. Mae defnydd effeithiol o weithgareddau yn yr ardal allanol, megis coginio yn y gegin fwd, i hybu dealltwriaeth y plant o dermau mathemategol. Mae cyfleoedd perthnasol i'r plant ddefnyddio medrau TGCh yn eu gweithgareddau ond nid oes cynllunio digon bwriadus i hybu eu medrau'n gyson.

Mae cyfleoedd pwrpasol i'r plant ddatblygu eu medrau ymchwiliol, creadigol a chorfforol. Mae'r profiad o arbrofi gyda chyfryngau a deunyddiau gwahanol i greu patrymau lliwgar ar eu crysau T, yn enghraifft. Mae gweithgareddau, megis ystyried a chofnodi nodweddion gwahanol nos a dydd, yn hyrwyddo medrau meddwl y plant yn effeithiol.

Mae'r plant yn cael eu cyflwyno'n llwyddiannus i draddodiadau a dathliadau Cymru drwy weithgareddau megis dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen. Mae defnydd priodol o ymweliadau ac o gyfraniad rhai ymwelwyr i gefnogi'r dysgu. Er enghraifft, mae ymweliadau aelodau'r heddlu a thrydanwr yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o rôl rhai pobl yn y gymuned.

Addysgu: Da

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth sicr o'r Cyfnod Sylfaen. Maent yn darparu profiadau dysgu perthnasol sy'n ennyn diddordeb y plant ac yn sicrhau eu hymrwymiad gweithredol yn eu dysgu. Mae cydbwysedd addas rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plant a gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan yr ymarferwyr. Mae defnydd effeithiol o ystod o ddulliau addysgu ac adnoddau i gynorthwyo'r dysgu. Er enghraifft, mae'r dasg yn yr ardal allanol o greu cymeriad allan o'u llyfr stori gan ddefnyddio brigau o wahanol faint yn cael ei defnyddio'n effeithiol i hybu medrau meddwl, llafar, mathemategol a chreadigol y plant mewn modd ystyrlon.

Mae'r holl ymarferwyr yn rhyngweithio'n effeithiol gyda'r plant. Maent yn siarad â'r plant yn gyson ac yn cynnig adborth llafar cadarnhaol i gefnogi'r dysgu. Mae defnydd da o gwestiynu i annog plant i feddwl ac i ymestyn a chyfoethogi eu geirfa Gymraeg.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac maent yn asesu a chofnodi eu cynnydd yn fanwl. Mae'r cofnodion ar ddatblygiad plant ar draws y meysydd dysgu yn cael eu diweddarau'n rheolaidd. Maent yn cael eu defnyddio'n addas i gefnogi'r cynllunio cyffredinol. Mae'r defnydd o'r asesiadau i gynllunio'r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer unigolion, yn cynnwys ymestyn y rhai mwy galluog a chynorthwyo plant sydd angen cynhaliaeth bellach, yn elfen sy'n datblygu'n gadarnhaol mewn agweddau ar y gwaith.

Mae'r casgliad o luniau o'r plant yn ymwneud â'u gweithgareddau yn gofnod defnyddiol o'u profiadau. Mae rhieni a gofaluwr yn derbyn gwybodaeth berthnasol am ddatblygiad eu plant trwy drafodaethau anffurfiol, adroddiadau ysgrifenedig manwl, a'r cyfleoedd i dderbyn a thrafod enghreifftiau o'u gwaith.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r gweithdrefnau sefydlu yn sicrhau bod plant yn ymgynffwrdd yn gyflym yn y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn ofalgar a chynhaliol o'r holl blant. Mae ystod o bolisiâu ac arferion dyddiol priodol yn hyrwyddo iechyd a lles plant yn effeithiol. Mae cyfleoedd buddiol i godi ymwybyddiaeth plant o bwysigrwydd bwyta'n iach ac ymarfer y corff. Maent yn cynnwys sicrhau byrbrydau iachus a sesiynau chwarae gemau addas yn yr ardal allanol.

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol i hybu gwerthoedd pwysig, megis pwysigrwydd rhannu a gofalu am eraill, drwy'r gweithgareddau dyddiol. Mae profiadau, megis dathliadau'r Nadolig a'r Pasg ac adrodd gweddi cyn byr bryd, yn cyfrannu'n briodol at ddatblygiad ysbrydol y plant. Mae sylw da i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r angen i helpu rhai llai ffodus trwy gasglu arian at achosion da. Mae rhai cyfleoedd addas i ddatblygu ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliannau gwahanol drwy, er enghraifft, ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

Mae trefniadau addas ar gyfer cefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, pan mae angen. Maent yn cynnwys llinellau cyfathrebu clir gydag asiantaethau allweddol megis gwasanaethau cefnogi sgiliau iaith a lleferydd.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r cyfleoedd i dyfu planhigion ac ymwneud â gweithgareddau ailgylchu yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o bwysigrwydd gofalu am yr amgylchedd a phob peth byw yn briodol.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae ethos teuluol yn treiddio trwy'r lleoliad. Mae'n gymuned gynhwysol sy'n rhoi mynediad cyfartal i'r plant i'r cwricwlwm a'r gweithgareddau a ddarperir. Mae'r ymarferwyr yn ystyried a gwerthfawrogi cefndiroedd gwahanol y plant ac maent yn ymateb yn briodol.

Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr gyda chymwysterau addas i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae digon o adnoddau yn y rhan fwyaf o'r meysydd dysgu. Mae ystod adnoddau TGCh yn fwy cyfyng.

Mae'r adeilad yn cynnig cyfleusterau digonol. Mae'r ystafell ddosbarth yn gyfyng o ran lle ond yn cael ei defnyddio'n bwrpasol gan yr ymarferwyr. Mae'r amgylchedd dysgu yn cael ei gyfoethogi gan arddangosiadau deniadol yn cynnwys gwaith y plant. Nid oes ardal chwarae awyr agored ond mae'r lleoliad yn gwneud defnydd cynhyrchiol o ardaloedd chwarae a chae'r ysgol ar gyfer ystod o weithgareddau. Mae'r adeilad yn lân a diogel.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Da

Arweinyddiaeth: Da

Mae'r lleoliad yn cael ei arwain yn effeithiol gan arweinydd cydwybodol. Mae'r ymarferwyr i gyd yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ac yn gweithio'n dda fel tîm. Mae hyn yn cyfrannu at greu amgylchfyd trefnus a phwrpasol i'r plant. Maent yn sefydlu perthynas gadarnhaol gyda'r plant, rhieni a gofalwyr, a phartneriaid eraill. Mae polisiau perthnasol yn cael eu gweithredu'n briodol.

Mae'r pwyllgor rheoli yn gefnogol iawn ac wedi sefydlu perthynas waith effeithiol gyda'r ymarferwyr a rhieni. Mae'r pwyllgor yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn rhoi sylw addas i ofynion cyfredol ac anghenion pellach y lleoliad. Mae gan y cadeirydd wybodaeth dda am reolaeth gyffredinol y lleoliad drwy ymweliadau a thrafodaethau rheolaidd gyda'r arweinydd.

Mae gweithdrefnau priodol mewn lle i werthuso gwaith yr ymarferwyr ac i adnabod anghenion datblygiad proffesiynol pellach. Er hyn, nid yw'r amserlen fwyaf diweddar o werthusiadau wedi'i chwblhau yn llawn.

Mae'r lleoliad yn rhoi sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn cynnwys gweithredu'r Cyfnod Sylfaen, datblygu medrau cyfathrebu Cymraeg y plant a hybu arferion byw'n iach.

Gwella ansawdd: Da

Mae gan yr arweinydd wybodaeth sicr o gryfderau'r lleoliad ac o'r prif agweddau sydd angen gwelliant. Mae hyn yn seiliedig ar arsylwadau o ymateb plant, trafodaethau ymhlith yr ymarferwyr ac adolygiadau o'r cofnodion asesu cynnydd. Mae arfarnu agweddau penodol o'r ddarpariaeth mewn modd mwy strwythuredig, fodd bynnag, yn elfen sy'n llai datblygedig.

Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn cynnig darlun cytbwys o'r ddarpariaeth. Mae'r cynllun datblygu sy'n deillio o hyn yn adnabod meysydd addas ar gyfer gwelliant. Mae'r cynllun yn cynnwys targedau addas, yn gosod amserlen ac yn amlinellu'r adnoddau angenrheidiol. Mae tystiolaeth o welliannau wrth weithredu'r cynllun mewn agweddau megis datblygu medrau llythrennedd y plant.

Mae agweddau ar y ddarpariaeth yn cael eu monitro'n adeiladol gan swyddog cyswllt yr awdurdod addysg a swyddog datblygu Mudiad Meithrin. Mae'r swyddogion yn rhannu eu sylwadau gyda'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gynllunio pellach.

Mae cyfleoedd addas i'r plant fynegi barn yn syml am y gweithgareddau maent yn eu hoffi neu ddim yn hoffi. Mae'r ymarferwyr yn rhoi ystyriaeth deg i farn rhieni a gofawyr, drwy drafodaethau dyddiol, cyfarfodydd rhieni a thrwy ddadansoddi'r holiaduron blynyddol.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae partneriaeth gadarn wedi'i sefydlu gyda'r rhieni a chadarnhawyd hyn yn ystod yr arolygiad. Mae gwybodaeth berthnasol ar gael iddynt trwy'r hysbysfwrdd, negeseuon technoleg gyfredol, llyfrynnau a chylchlythyron. Mae ymarferwyr ar gael yn rheolaidd i drafod ar ddechrau a diwedd pob sesiwn.

Mae'r bartneriaeth gynhyrchiol gyda'r ysgol gynradd yn cynnig cyfleoedd da i'r ymarferwyr a'r plant ddefnyddio'r cyfleusterau a'r adnoddau dysgu sydd ar safle'r ysgol. Mae hefyd yn hyrwyddo trosglwyddiad esmwyth i'r plant i gam nesaf eu haddysg. Mae'r cysylltiadau agos gyda'r feithrinfa ddydd lleol o fudd i'r plant a'r ymarferwyr.

Mae'r bartneriaeth adeiladol gyda'r pwyllgor rheoli, swyddog cyswllt yr awdurdod lleol a swyddog Mudiad Meithrin yn cynorthwyo gwaith y lleoliad drwy'r cyngor ymarferol a gynigir.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau buddiol gyda'r gymuned. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n adeiladol gyda chymdeithasau lleol drwy, er enghraifft, gynnal stondin yn y sioe leol a threfnu diwrnod hwyl i'r teuluoedd a ffrindiau'r lleoliad. Mae cefnogaeth dda i'r gweithgareddau codi arian.

Rheoli adnoddau: Da

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol ac mae defnydd cynhyrchiol o amser a phrofiad yr ymarferwyr. At ei gilydd, mae adnoddau dysgu yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu.

Mae'r ymarferwyr yn mynychu cyfleoedd hyfforddi perthnasol sydd yn datblygu eu gwybodaeth a'u medrau yn briodol. Maent wedi derbyn hyfforddiant addas ar ofynion y Cyfnod Sylfaen ac ar agweddau ar ddatblygiad a gofal plant. Mae defnydd effeithiol o'r hyfforddiant i'w weld mewn agweddau megis yr ystod o ddulliau addysgu sy'n cael eu defnyddio. Mae'r arweinydd yn gwneud defnydd priodol o'r cyfleoedd i ymweld â lleoliadau eraill i rannu profiadau ac arsylwi arfer dda.

Mae gan y cadeirydd a'r arweinydd ddealltwriaeth sicr o'r gyllideb ac maent yn blaenoriaethu gwariant yn unol ag anghenion y lleoliad. Mae defnydd effeithiol o grantiau ac o ddigwyddiadau codi arian i ychwanegu at yr adnoddau.

O ystyried ansawdd yr arweinyddiaeth, y profiadau dysgu a'r gofal a chymorth i blant, mae'r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian.

Atodiad 1

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd llai na 10 ymateb. Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

Atodiad 2

Yr arolygydd cofnodol –

Dorothy Morris	Arolygydd Cofnodol
----------------	--------------------

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Rhestr termau

AGGCC	Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru.
Athro ymgynghorol awdurdod lleol	Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed.
Y Cyfnod Sylfaen	Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed
Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)	Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned.
Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)	Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau.
Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)	Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref.
Meysydd Dysgu	<p>Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none">• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu• datblygiad mathemategol• datblygu'r Gymraeg• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd• datblygiad corfforol• datblygiad creadigol
Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)	Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth.

Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)	Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012.
Mudiad Meithrin	Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.